# Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 330 ac Uned 331

Ionawr 2025

© WJEC CBAC Ltd.



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Mae’r ddarpariaeth hon yn gyfyngedig i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi'r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys** **Tudalen**

Crynodeb gweithredol 5

Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, yn yr 21ain ganrif yng Nghymru 6

Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru 14

Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau 22

© WJEC CBAC Ltd.

**Crynodeb Gweithredol**

**Uned 330 ac Uned 331**

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| **Uned 331**<br>Meysydd i'w gwella fyddai mwy o bwyslais ar gwestiwn y testun y mae angen ei drafod yn gadarn drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. | Canllawiau astudio ar gyfer datblygu ymchwil ac ymchwiliad | Mae'r canllawiau canlynol yn rhoi gwybodaeth am adnoddau ymchwil, technegau chwilio:<br><br>https://library.southwales.ac.uk/collections-subject-guides/research/ |
| **Uned 331**<br>Sicrhau bod dyfyniadau a gwybodaeth bellach sy'n cael eu defnyddio i gefnogi ymateb y dasg wedi'u nodi yn y testun a'u bod o ffynonellau priodol ar gyfer y ffynonellau tystiolaeth sy'n cael eu defnyddio ac sydd yn y rhestr gyfeirnodau. | Dull cyfeirnodi Harvard | Harvard yw'r arddull cyfeirio sy'n cael ei argymell Bydd canllawiau Prifysgol De Cymru isod yn eich helpu i ddeall a defnyddio'r arddull cyfeirio hwn.<br><br>https://library.southwales.ac.uk/collections-subject-guides/referencing/ |
| **Uned 330**<br>Defnyddio pecynnau cefnogi ar DIGC fel y gall dysgwyr ymarfer cwestiynau arddull arholiad cyn yr arholiadau | Papurau ffug arholiadau ac arholiadau blaenorol | Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori (i'w ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2025)<br><br>Mae pecynnau cefnogi wedi'u storio yn yr adran dogfennau allweddol a deunyddiau cwrs. |

© WJEC CBAC Ltd.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Ionawr 2025**

**UNED 330: EGWYDDORION A DAMCANIAETHAU SY'N DYLANWADU AR OFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YN YR 21AIN GANRIF YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Mae'r fformat, yr arddull a'r mathau o gwestiynau yn y papur hwn yr un fath ag mewn papurau blaenorol ac yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd dim cwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 300. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5.

Roedd amseru'r papur wedi'i wneud yn dda, gan fod yr ymgeiswyr wedi ymateb yn dda ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi rhoi cynnig ar bob set o gwestiynau. Roedd ymgeiswyr yn gyson yn gallu darparu lefel da o fanylder a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o gynnwys uned 330. Cwblhawyd yr arholiad ar-lein ac ar gopïau papur. Roedd yr ymatebion ysgrifenedig yn glir ar y cyfan, ac roedd yr arholwyr yn gallu deall y testun. Roedd rhai ymgeiswyr wedi defnyddio llawysgrifen fawr ac wedi llenwi’r llinellau a ddarparwyd ar gyfer pob cwestiwn yn gyflym, roedd yn dda gweld bod ymgeiswyr yn aml yn defnyddio taflenni ychwanegol i gwblhau eu hymateb neu wella eu trafodaeth ymhellach. Roedd y cyfle i gwblhau’r arholiad ar-lein wedi gwella’r ymatebion, ac roedd ymgeiswyr yn gallu defnyddio'r lle ehangedig ar gyfer eu hymatebion. Mae ymgeiswyr yn aml yn elwa ar allu teipio yn hytrach nag ysgrifennu eu hatebion, gan eu bod yn gallu addasu a chywiro eu hymatebion wrth fynd drwy'r papur.

Yn achos y rhan fwyaf o'r papurau, rhoddwyd cynnig ar bob cwestiwn, ond nid oedd rhai o'r papurau a gwblhawyd yn cynnwys atebion i Gwestiwn 2 – Mae damcaniaethau am ddatblygiad ymddygiad yn gallu cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi ymddygiad plant (a) Amlinellwch ddamcaniaeth ymddygiad Albert Bandura, ac mae'n bosibl bod hyn oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddamcaniaeth ofynnol. Roedd nifer bach o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn er bod eu hymateb yn ymwneud â damcaniaethydd a damcaniaeth datblygiad plant nad oedd yn gysylltiedig.

Ar y cyfan, roedd y cwestiynau yn hygyrch i lawer o ymgeiswyr a doedd dim un o’r cwestiynau ar y papur yn fwy heriol na'r hyn a ddefnyddiwyd mewn unrhyw bapur arall yn yr uned hon. Drwy gydol y gyfres hon roedd atebion yr ymgeiswyr yn amrywio o ran manylder yr ymatebion a chafodd y berfau gorchmynnol eu cydnabod. Roedd ymgeiswyr yn gallu cynnig eglurder yn eu sgiliau ysgrifenedig gan olygu eu bod yn aml yn cyrraedd y band marciau uchaf; mae hyn yn hynod o arwyddocaol yng nghanlyniad uwch yr asesiad wrth gyfeirio at fathau o gwestiynau penodol a lle'r oedd ymgeiswyr yn gallu trafod terminoleg berthnasol gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r maes i'w drafod.

Maes allweddol y dylid canolbwyntio arno yn y dyfodol yw bod ymgeiswyr yn dyfnhau eu gwybodaeth am ddamcaniaethwyr a damcaniaethau datblygiad plant, ac yn datblygu dealltwriaeth fwy cadarn o sut mae'r damcaniaethau hyn yn ymwneud ag ymarfer. Byddai cael dealltwriaeth gadarn o ddamcaniaethwyr a damcaniaethau mewn ymarfer yn gwella eu dysgu yn sylweddol ac yn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn.

© WJEC CBAC Ltd.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**1. Mae plant yn gallu dod ar draws deunyddiau negyddol a chyfathrebu amhriodol (*inappropriate communications*) pan maen nhw ar-lein.**

**Esboniwch sut i gadw plant yn ddiogel ar-lein i gefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u datblygiad.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr esbonio sut i gadw plant yn ddiogel ar-lein i gefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u datblygiad. Byddai ymgeiswyr wedi cael profiad o dderbyn cyngor a chefnogaeth ar ddefnyddio deunyddiau ar-lein yn yr ysgol ac yn aml drwy arweiniad rhieni ac felly byddent yn gallu uniaethu â phrofiadau personol ar y testun hwn, yn ogystal â'r cynnwys a addysgwyd yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ymatebion yr ymgeiswyr yn amrywio o ran eu dyfnder ac eglurder, a'u mynegiant o wybodaeth a dealltwriaeth. Ymatebodd rhai ymgeiswyr i'r mathau o ddeunyddiau negyddol a chyfathrebu amhriodol pan maen nhw ar-lein, er na wnaethant roi unrhyw esboniad am sut i gadw plant yn ddiogel i gefnogi eu hiechyd, eu llesiant a'u datblygiad. Roedd yr esboniadau da ar y cyfan yn ymwneud â phwysigrwydd siarad gyda phlant am gadw'n ddiogel ar-lein a sicrhau bod plant yn gosod cyfrineiriau diogel. Roedd ymgeiswyr yn aml yn esbonio gwerth oedolion yn trafod gyda phlant pa mor bwysig yw peidio â rhannu gwybodaeth bersonol.

Fe wnaeth ymgeiswyr hefyd esbonio sut i gadw plant yn ddiogel ar-lein drwy gyfyngu ar eu mynediad ar-lein a rhoi rheolaethau rhieni a mesurau diogel ar waith o ran y deunyddiau gall plant ddod i gysylltiad â nhw. Esboniodd yr ymgeiswyr yn dda sut dylai plant gael eu haddysgu fel eu bod yn gallu deall canlyniadau posibl mynediad heb ganiatâd neu wybodaeth. Roedd rhai ymgeiswyr wedi trafod gofyn i weithwyr proffesiynol fel yr heddlu, i siarad gyda phlant. Trafododd rhai ymgeiswyr radicaleiddio, a sut gall dod i gysylltiad â chynnwys amhriodol effeithio ar iechyd meddwl. Cyfeiriodd ymgeiswyr yn rheolaidd at bwysigrwydd gosod rheolaethau i atal mynediad i ddelweddau amhriodol a chynnwys ar-lein niweidiol. Cafwyd marciau uchel iawn yn gyffredinol am y cwestiwn hwn gan fod ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion cadarnhaol a phenodol, drwy fynegi gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn am sut i gadw plant yn ddiogel.

© WJEC CBAC Ltd.

2. **Mae damcaniaethau am ddatblygiad ymddygiad yn gallu cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi ymddygiad plant.**

(a) **Amlinellwch ddamcaniaeth ymddygiad Albert Bandura.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ganolbwyntio'n benodol ar ddamcaniaeth Bandura. Roedd angen i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth yn seiliedig ar ddamcaniaethau datblygiad ymddygiad sy'n gallu cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi ymddygiad plant. Roedd yr ymatebion a roddwyd yn ymdrin ag amrediad eang o farciau, roedd nifer bach o ymgeiswyr yn ansicr ynglŷn â damcaniaeth Bandura neu wedi camddeall y ddamcaniaeth yn y cwestiwn ac wedi trafod damcaniaeth wahanol. Roedd llawer yn deall dulliau Bandura ac wedi cyfeirio at yr ymddygiad negyddol a ddangoswyd tuag at y ddol Bobo a sut roedd plant yn dynwared oedolion. Roedd yr ymatebion da yn amlinellu damcaniaeth ymddygiad Bandura yn gywir ac yn fanwl. Amlinellodd yr ymgeiswyr sut gall plant ddysgu ymddygiad cymdeithasol fel ymosodedd drwy arsylwi. Amlinellodd yr ymgeiswyr arbrawf dol Bobo Bandura gan drafod sut bydd plant yn dynwared gweithredoedd drwy wylio ymddygiad rhywun arall. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu uniaethu ag arbrawf y ddol Bobo gyda gwybodaeth a dealltwriaeth ac roeddent yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut gall gweithredoedd cadarnhaol neu negyddol ddylanwadu ar ymddygiadau.

(b) **Trafodwch sut mae damcaniaeth Bandura yn gallu cefnogi ymddygiad plant mewn ymarfer.**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i gynnig esboniad pellach o ddamcaniaeth Bandura a amlinellwyd yng Nghwestiwn 2 (a) gan alluogi ymgeiswyr i fyfyrio ar wybodaeth ddamcaniaethol a sut mae'n cael ei defnyddio i gefnogi ymddygiad plant mewn ymarfer. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod sut mae damcaniaeth ymddygiad Bandura yn cael ei dysgu drwy arsylwi. Gwnaethant esbonio amrywiaeth eang o ddulliau a strategaethau a ddefnyddir mewn lleoliadau gofal plant sy'n cefnogi plant i arsylwi ar ymddygiad cadarnhaol y bobl o'u cwmpas. Trafododd ymgeiswyr yn aml sut mae staff gofal plant yn fodelau ymddygiad dylanwadol ac yn fodelau rôl i blant. Trafododd ymgeiswyr sut mae ymddygiad yn cael ei ddysgu drwy atgyfnerthu a chosbi a sut mae gwobrau yn cael eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. Trafododd ymgeiswyr sut gall damcaniaeth Bandura gael ei defnyddio i gefnogi ymddygiad plant drwy fodelu rôl cadarnhaol a rhoi enghreifftiau o ymddygiad i blant eu harsylwi a'u dynwared. Ar y cyfan roedd ymgeiswyr yn gallu mynegi eu hunain yn dda iawn mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gefnogi ymddygiad plant mewn ymarfer.

© WJEC CBAC Ltd.

3. **Mae amrywiaeth o dimau a gwasanaethau yng Nghymru yn darparu cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol (*positive behaviour support*).**

**Amlinellwch y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y 'Tîm o Amgylch y Teulu'.**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymgeiswyr amlinellu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Ar y cyfan, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r teulu i wneud newidiadau ymddygiad cadarnhaol, a sut mae'r gwasanaeth yn helpu i wneud newidiadau i wella bywyd y teulu. Dangosodd sawl ymgeisydd sut mae'r gwasanaeth yn aml yn cyfeirio'r teulu at wasanaethau cefnogi eraill a allai fod yn fwy penodol i'w hangen ac er mwyn sicrhau bod plant yn derbyn gwasanaethau priodol. Roedd ymgeiswyr yn gallu amlinellu sut mae'r 'Tîm o amgylch y Teulu' yn helpu drwy weithio gyda chryfderau teulu a rhoi cefnogaeth i gynnig atebion i unrhyw wendidau. Yn aml roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae gwasanaethau arbenigol yn helpu i adeiladu gwydnwch mewn teuluoedd a phlant. Roedd ymatebion da yn cynnwys trafodaeth bellach a mynegiant, gan ddangos lefel da o ddealltwriaeth a gwybodaeth o'r gefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a ddarparwyd drwy'r gwasanaeth 'Tîm o Amgylch y Teulu'.

4. **Mae sgrinio rheolaidd a gofal meddygol yn cael eu gweithredu fel rhan o ofal mamolaeth (*maternity care*) yng Nghymru.**

**Aseswch beth yw pwysigrwydd sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd yn ystod beichiogrwydd.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr asesu beth yw pwysigrwydd sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd yn ystod beichiogrwydd. Roedd ymgeiswyr yn gallu asesu pwysigrwydd profion sy'n gallu helpu gyda dewisiadau yn ystod beichiogrwydd, fel gofal pellach, neu driniaeth. Roedd ymgeiswyr yn gallu trafod profion sgrinio, sgrinio rheolaidd a'r mathau o fonitro yn ystod beichiogrwydd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am iechyd y fam ac iechyd y plentyn. Roedd ymgeiswyr yn aml yn gallu asesu pwysigrwydd y profion sgrinio a gynigir yn ystod beichiogrwydd i ganfod cyflyrau, fel sganiau uwchsain a phrofion gwaed i ganfod cyflyrau. Ar y cyfan, rhoddwyd marciau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn, a dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth am bob math o sgrinio, monitro a phrofion rheolaidd yn ystod beichiogrwydd.

© WJEC CBAC Ltd.

**5. Diffiniwch beth yw rôl broffesiynol optegydd o ran hybu iechyd plant.**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ddiffinio rôl allweddol optegydd o ran hybu iechyd plant. Roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi diffiniadau eang o rôl yr optegydd ac roedd llawer ohonynt yn gallu darparu diffiniadau penodol o agweddau mwy arbenigol ar y rôl. Roedd diffiniadau'r ymgeiswyr yn canolbwyntio ar esbonio sut mae optegwyr yn cynnal profion sgrinio golwg a'u bod yn gallu canfod amhariadau ar y golwg ac y byddant yn rhagnodi sbectol neu lensys cyffwrdd yn ôl yr angen. Cafwyd trafodaeth gyson ar rôl yr optegydd wrth gynnal archwiliadau manwl o iechyd y llygaid a darganfod unrhyw broblemau gydag iechyd cyffredinol y plentyn. Trafododd rhai ymgeiswyr rôl yr optegydd wrth ganfod unrhyw broblemau yn fuan fel bod modd rhoi triniaeth, fel cynnal profion ar gyfer diffyg golwg lliw neu unrhyw broblemau iechyd gyda'r llygaid a chyfeirio plant i gael cyngor a thriniaeth gan arbenigwyr. Rhoddwyd marciau uchel ar gyfer y cwestiwn hwn ar y cyfan, ac roedd ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o rôl broffesiynol optegydd o ran hybu iechyd plant.

**6. Thema plant y dosbarth meithrin ar gyfer tymor yr haf yw 'popeth am y traeth'.**

**Mae angen i chi greu cynllun gweithgareddau i gefnogi arddulliau dysgu amrywiol y plant.**

**(i) Gweithgaredd – Nodwch weithgaredd sy'n defnyddio'r thema 'popeth am y traeth'.**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu darparu gweithgaredd a oedd yn ymwneud â'r thema 'popeth am y traeth' yn unol â'r gofynion ar gyfer ateb y cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebion a ddarparwyd yn eang ac yn amrywiol ac yn cyfeirio'n benodol at weithgaredd priodol, fel dysgu am greaduriaid y môr, golygfa o'r traeth a chrefftau a gweithgareddau celf cregyn neu dywod penodol.

**(ii) Rôl yr oedolyn – Amlinellwch rôl yr oedolyn yn y gweithgaredd hwn.**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu amlinellu rôl yr oedolyn a chysylltu'r gweithredoedd â'r gweithgaredd a ddewiswyd, a chafwyd amrywiaeth o ymatebion fel yr oedolyn yn darparu'r adnoddau, yn paratoi'r gweithgaredd, yn rhoi arweiniad a chefnogaeth drwy drafodaethau a chyfathrebu.

**(iii) Arddulliau dysgu – Trafodwch sut bydd arddulliau dysgu perthnasol yn cael eu datblygu yn ystod y gweithgaredd.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr drafod sut bydd arddulliau dysgu perthnasol yn cael eu datblygu yn ystod y gweithgaredd. Er enghraifft, dysgu gweledol gan ddefnyddio delweddau, diagramau, cardiau fflach a lluniau, arddull dysgu clywedol gan ddefnyddio cerddoriaeth, sgiliau llafar a thrafodaethau, arddull dysgu darllen ac ysgrifennu gan ddefnyddio llyfrau, testun, gwneud nodiadau ac adrodd straeon, a'r arddull dysgu cinaesthetig drwy weithgareddau ymarferol, cyffwrdd a symudiadau. Dangosodd llawer o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth glir o'r arddulliau dysgu a'u cysylltu'n effeithiol â'r gweithgaredd o'u dewis. Yn anffodus, yn aml ni chafodd yr arddulliau dysgu eu trafod yn ymatebion yr ymgeiswyr a rhoddwyd marciau o'r band marciau is yn aml i'r cwestiwn hwn gan nad oedd yr atebion a ddarparwyd yn bodloni ymatebion y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**7. Mae angen i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael mwy o gefnogaeth er mwyn dysgu.**

**Archwiliwch y gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (*Additional Learning Needs Coordinator*: ANCO/ALNCO).**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi amrywiaeth o ymatebion yn ymwneud yn benodol â'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyflwynodd yr ymgeiswyr lefel da o wybodaeth a dealltwriaeth yn gyson o rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth gefnogi'r lleoliad i gynllunio a diwallu anghenion plant drwy roi cefnogaeth broffesiynol i staff. Archwiliodd ymgeiswyr bwysigrwydd adnabod ac asesu'n gynnar a gwerth cynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mynegodd rhai ymgeiswyr werth y gefnogaeth a ddarparwyd wrth reoli'r broses o osod targedau unigol ac roedd rhai ymgeiswyr yn gallu archwilio manteision cwblhau cynlluniau datblygu unigol (CDU). Ar y cyfan, atebwyd y cwestiwn hwn gyda gwybodaeth a dealltwriaeth ac roedd ymgeiswyr yn gallu mynegi eu gwybodaeth ddamcaniaethol a'u profiadau ymarferol o'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**8. Mae Aiden wedi dechrau colli dosbarthiadau yn aml yn ei ysgol uwchradd. Mae'r athrawon yn pryderu am ei lesiant gan ei bod hi'n anarferol (*unusual*) i Aiden fod yn absennol o'r ysgol.**

**(a) Ystyriwch y rhesymau posibl dros ddiffyg presenoldeb (*lack of attendance*) Aiden.**

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu uniaethu'n dda iawn â'r cwestiwn hwn ac ar y cyfan rhoddwyd ystyriaethau gwych am y rhesymau posibl dros ddiffyg presenoldeb Aiden. Yn gyffredinol rhoddodd yr ymgeiswyr ddisgrifiadau cytbwys o'r rhesymau posibl, fel problemau teithio, bod yn ofalwr ifanc a bod yn gyfrifol am frodyr/chwiorydd a bwlio a gwnaethant gysylltu'r ymatebion yn gadarn â'r ffaith bod Aiden yn absennol o'r ysgol. Ar y cyfan, rhoddwyd marciau uchel iawn i'r cwestiwn hwn a chafwyd ymatebion gwych.

**(b) Gwerthuswch beth yw pwrpas ymyrryd yn gynnar (*early intervention*) i blant sydd â phryderon presenoldeb.**

Roedd ymgeiswyr yn gallu darparu amrywiaeth o fesurau ymarferol i ateb y cwestiwn hwn, gan gynnwys gwerthuso pwrpas ymyrryd yn gynnar i blant sydd â phryderon presenoldeb, fel mynd ar ôl problemau presenoldeb ac unrhyw resymau aml dros ddiffyg presenoldeb. Cyfeiriwyd hefyd at bwrpas cyfathrebu'n dda â staff a rhoi gwybod i aelodau staff allweddol, er enghraifft y pennaeth a'r swyddog presenoldeb. Hefyd, trafododd yr ymgeiswyr bwysigrwydd cysondeb a dilyn polisi presenoldeb yr ysgol, a strategaethau gwella presenoldeb yr ysgol. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar yr egwyddorion allweddol i hybu presenoldeb drwy eu hymarfer a gwnaethant ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o fanylder amrywiol.

© WJEC CBAC Ltd.

9. **Mae damcaniaeth dysgu troell chwarae Janet Moyles (1989) wedi dylanwadu ar ardaloedd chwarae newydd yn ystafell y dosbarth derbyn.**

**Esboniwch beth yw gwerth annog chwarae rhydd a chyfeiriedig (*free and directed play*) drwy'r dull troell mewn ymarfer.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ganolbwyntio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaethau cyfoes a hirsefydledig. Mae'r cwestiwn yn gofyn am ddealltwriaeth o sut mae dulliau yn llywio ymarfer a sut gallant gael eu defnyddio i greu newid mewn lleoliadau. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi esboniad da o werth annog chwarae rhydd a chyfeiriedig drwy'r dull troell mewn ymarfer. Roedd yr ymatebion yn amrywio o ran dyfnder eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn y ffiniau marciau wrth i ymgeiswyr fynegi sut mae plant yn gallu symud yn rhydd ac archwilio'r amgylchedd dysgu. Yn aml roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi dealltwriaeth lawn, rhoi manylion a mynegi gwerth y ddamcaniaeth dull troell a ddatblygwyd gan Janet Moyles. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu myfyrio ar brofiadau a gafwyd yn sgil profiad gwaith ac esbonio gwerth strwythur dan arweiniad oedolyn ac yna amgylcheddau dysgu chwarae rhydd. Yn ogystal, mynegwyd dealltwriaeth dda o chwarae dan arweiniad oedolyn a chwarae wedi'i gychwyn gan y plentyn. Dangosodd llawer o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda a chlir o bwysigrwydd annog rhyngweithio gwerthfawr a chyfleoedd i archwilio a dysgu.

10. **Disgrifiwch beth yw manteision y dull dysgu Ysgol Goedwig i iechyd, llesiant a datblygiad plant.**

Roedd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried yr amrywiaeth o fanteision i ddysgu plant pan fyddant yn cael eu trochi yn amgylchedd dysgu Ysgol Goedwig. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu darparu ymatebion amrywiol ar sail eu gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol ac roeddent yn llawn mynegiant wrth sôn am fanteision y dull dysgu Ysgol Goedwig i iechyd, llesiant a datblygiad plant. Canolbwyntiodd yr ymgeiswyr ar fanteision bod yn yr awyr agored ac yn y coetiroedd a chael profiad o natur. Disgrifiodd yr ymgeiswyr werth amgylcheddau dysgu awyr agored sy'n cynnig adnodd addysgol ysgogol lle gall plant elwa ar ddysgu o'r profiadau dysgu amrywiol. Yn ogystal, disgrifiwyd fanteision dysgu drwy chwarae yn yr awyr agored a gwerth dysgu yn yr awyr agored i iechyd a llesiant meddyliol plant. Canolbwyntiodd yr ymgeiswyr eu hymatebion drwy ddangos dealltwriaeth o'r ffaith bod cwricwlwm yr Ysgol Goedwig yn cael ei ddarparu drwy ddysgu ymarferol ac arbrofol yn yr awyr agored, a chafwyd syniadau clir ac amrywiol ar gyfer cyfleoedd dysgu ymarferol y gellir eu defnyddio er budd plant ag amrywiaeth o arddulliau dysgu. Ar y cyfan, rhoddwyd marciau uchel iawn i'r cwestiwn hwn, roedd ymatebion yr ymgeiswyr yn fynegiannol a darparwyd amrywiaeth eang o wybodaeth am y dull dysgu Ysgol Goedwig.

© WJEC CBAC Ltd.

**11. Trafodwch beth yw rôl Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wrth ymweld â lleoliadau gofal plant.**

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr o rôl Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ar y cyfan, cyflwynodd yr ymgeiswyr amrywiaeth dda o agweddau arwyddocaol ar rôl AGC a'r broses arolygu, er enghraifft pwysigrwydd lleoliadau gofal plant yn dilyn y rheoliadau gosod sydd yn eu lle a sicrhau eu bod yn darparu gofal diogel a da i blant. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu trafod sut mae rôl Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn archwilio'r amgylchedd ffisegol, fel a yw'n ddiogel, yn lân ac yn gyfforddus i'r plant ac a yw'n cael ei gynnal yn dda. Dangosodd yr ymgeiswyr lefel dda o ddealltwriaeth o ran y ffordd mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rheoleiddio ac yn arolygu diogelwch gwasanaethau plant a sut bydd AGC yn gweithredu i wella'r amgylchedd er budd y plant i sicrhau cysondeb yn ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir i blant. Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn hwn a darparwyd amrywiaeth eang o ymatebion gwybodus ar sail damcaniaeth a phrofiadau ymarferol.

© WJEC CBAC Ltd.

**GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI**

**Lefel 3**

**Ionawr 2025**

**UNED 331: YMCHWILIO I FATERION CYFREDOL YM MAES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Mae'r uned hon yn gofyn i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau a chyd-destunau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i ddadansoddi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth (eu rhai eu hunain a rhai eraill) o fewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymchwilio a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer sy'n ymwneud â gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant a myfyrio ar sut gallant ddylanwadu ar ymarfer.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymgymryd ag ymchwil annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau i ymchwilio i'w testun dewisol a'u meysydd ffocws a bydd angen iddynt gasglu tystiolaeth ddigonol a dibynadwy wrth baratoi ar gyfer cwblhau'r tasgau.

**Testunau Gaeaf 2025:**

**Testun 1**

Mae gwahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella’r canlyniadau i ddysgu plant yn sylweddol.

Gwnewch ymchwil ar sut mae annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella’r canlyniadau i blant.

**Testun 2**

Mae gwasanaethau sgrinio Llywodraeth Cymru yn hybu iechyd a llesiant ac yn darparu rôl hollbwysig yn y gwasanaeth gofal iechyd.

Gwnewch ymchwil ar rôl ac effaith sgrinio, profi a monitro heb fod yn rheolaidd (*non-routine*) o adeg cenhedlu hyd at adeg geni.

**Pwyntiau allweddol yr Uwch Arholwr:**

Dewisodd llawer o ymgeiswyr gwestiwn testun 1 i ymchwilio i'r ffordd mae annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella'r canlyniadau i blant. Rhoddodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o ymatebion o ran dewis amrywiol o feysydd trafod ffocws gan gynnwys cyfeirio at anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cyflyrau ADY penodol, arsylwadau ac asesiadau, arddulliau dysgu gwahanol a beichiogrwydd, i enwi dim ond rhai. Roedd yr ymatebion i'r tasgau unigol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r disgwyliadau ac, ar y cyfan, cafodd strwythur yr ymchwiliadau eu cyflwyno'n briodol. Ymatebodd rhai ymgeiswyr drwy ddefnyddio'r meysydd ffocws o’u dewis yn unig, ac roedd diffyg cysylltiadau er mwyn ymateb i gwestiwn y testun yn briodol a gydag unrhyw werth.

© WJEC CBAC Ltd.

Roedd gwahaniaethau sylweddol yn lefel yr ymchwil a ddarparwyd ac roedd y ffynonellau a ddefnyddiwyd i ddangos tystiolaeth o waith ddim bob amser yn amlwg ar ffurf rhestr gyfeiriadau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn mynegi gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r testun yn yr ymchwiliadau ysgrifenedig, a rhoddwyd ymatebion amrywiol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion y gweithle, ac roeddent yn gallu uniaethu â phrofiadau proffesiynol gydag eglurder.

Mae meysydd ffocws sy'n seiliedig ar ganolfannau i'w gweld ar draws proses farcio'r canolfannau ac yn aml mae ymgeiswyr wedi cwblhau eu tasgau ar sail canllawiau canolfannau a thasgau gosod y dosbarth nad ydynt yn caniatáu i'r ymgeisydd wneud dewis personol. Dylid cwblhau ymchwiliad uned 331 yn seiliedig ar ddewis unigol yr ymgeisydd a'i gwblhau yn seiliedig ar ymchwil ymgeisydd unigol i faes pwnc o'i ddewis, gan ganiatáu ar gyfer mynegi barn, safbwyntiau, ystyriaeth bersonol, a phrofiadau ymarferol i gael y rhyddid i ddewis ar gyfer eu tasg a meysydd ffocws.

Mae'r broses marcio arholiad yn gofyn am strwythur penodol i sicrhau eglurder ac ystyriaeth glir o ffiniau marciau gan y tîm arholi ac maent yn feysydd allweddol ar gyfer ymarfer, addysgu a dysgu yn y dyfodol mewn perthynas â strwythur yr ymchwiliad. Bydd y meysydd allweddol canlynol yn cefnogi eglurder ac effeithiolrwydd yr ymchwiliad estynedig ac yn galluogi ymgeiswyr i gael mynediad at yr amrediad o farciau sydd ar gael.

- Teitl a thestun dewisol i'w nodi'n glir ar dudalen gyntaf y papur i sicrhau bod ffiniau'r tasgau'n glir.
- Rhif canolfan ymgeisydd, rhif ymgeisydd a rhifau tudalen ar bob tudalen a gyflwynir.
- Rhaid i dasgau 1, 2, 3, 4, 5, 6 gael eu labelu'n glir i nodi ffiniau tasgau. Ni ellir marcio gwaith heb nodi'r dasg yn glir.
- Ni chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod yr Asesiad Di-arholiad.
- Ni all ymgeiswyr gynnwys cysylltau at ragor o wybodaeth, arolwg neu holiaduron gan eu bod y tu hwnt i ffin y cynllun marcio. Rhaid trafod unrhyw wybodaeth bellach a geir o ymchwil gyda'r tasgau gosod.
- Sylwch ar y dystiolaeth sydd ei hangen gan gynnwys ystyried y print trwm '**rhaid** cynnwys neu **gallai** gynnwys' i sicrhau bod ymdriniaeth dda â'r cynllun marcio
- Rhaid i drafodaethau am ddeddfau, deddfwriaeth a fframweithiau ymwneud â Chymru a chael eu cyfeirio'n briodol.
- Ni chaniateir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial fel ffynhonnell ddilys neu gyfeiriad ar gyfer ymchwil
- Dylid darparu rhestri cyfeiriadau ar ddiwedd yr ymchwiliad cyfan.
- Rhaid darparu cyfeiriadau priodol i gysylltau ar-lein
- Rhaid cwblhau'r taflenni dyraniad amser a'u llofnodi
- Rhaid cyfrif am unrhyw egwyl ar daflen amser
- Dull cyfeirio Harvard yw'r dewis priodol ar gyfer cyfeirio.
- Dylai canolfannau ganiatáu unigoliaeth wrth gwblhau'r ymchwiliad.
- Dylid nodi'r cyfrif geiriau yn glir heb gynnwys rhestr cyfeirio a llyfryddiaeth.
- Ni ddylai'r cyfrif geiriau fod yn fwy na 5500, ni fydd tasgau dros y lwfans hwn yn cael eu marcio.
- Mae'r maes testun yn ganolog i'w holl ymchwiliad. Mae'r papur asesu'n cael ei farcio yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhaid iddo gysylltu â thestun dewisol drwy gydol pob tasg.
- Bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei adael heb ei farcio.
- Dylid osgoi defnyddio tablau a phwyntiau bwled.
- Dylid osgoi profformas, papur arholiad uned 331 yw prif ffynhonnell y canllawiau ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus.
- Ni ddylid addasu cwestiynau arholiad

© WJEC CBAC Ltd.

- Mae'n ofynnol i ganolfannau uwchlwytho dogfennau Word yn hytrach na dogfennau pdf.
- Dylai ymgeiswyr ond ymgymryd â meysydd trafod y maent yn gallu eu trafod yn effeithiol fel dewis unigol yn hytrach na dewis y ganolfan.
- Dylid ysgrifennu tasgau o safbwynt yr ymgeisydd ac yn y person cyntaf, gan ddisgrifio teimladau a digwyddiadau o'u safbwyntiau nhw.
- Mae angen cwblhau taflenni amser fel y nodwyd ac mae angen eu cyfansymio â nifer yr oriau
- Dylai ymgeiswyr ddewis nifer bach o feysydd ffocws o fewn eu testun dewisol sy'n benodol ac yn realistig i'w cwblhau o fewn cyfrif geiriau'r ymchwiliad
- Dylid osgoi profformas wedi'u symleiddio sydd â chwestiynau amgen gan nad yw meysydd tystiolaeth wedi'u cynnwys yn aml.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

**Ysgrifennwch ragarweiniad i'ch ymchwiliad estynedig.**

Amlinellwch:
- y prif feysydd ffocws rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â'r testun rydych chi wedi'i ddewis
- pam rydych chi wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws; efallai byddwch chi'n dymuno sôn am ddiddordeb personol, cynnwys rydych chi wedi'i ddysgu gyda'r athro, ymgysylltu â'r sector a'ch lleoliad gwaith ar gyfer y dulliau ymchwil rydych chi wedi'u defnyddio
- y ffynonellau rydych chi wedi'u defnyddio wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws

Mae'r dasg hon yn gofyn am ragarweiniad penodol i'r ymchwiliad estynedig cyfan. Dylid nodi meysydd ffocws yn glir a dylent fod yn ganolog i'r testun a ddewiswyd. Dylid nodi un neu ddau faes ffocws gan roi rhesymau dros eu dewis a all fod yn seiliedig ar brofiad personol a/neu ymarferol mewn lleoliad gwaith neu amgylchedd dysgu sydd wedi ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth i ysgogi ymchwiliad pellach. Mae angen cyfyngu ar y meysydd ffocws i sicrhau y gellir ystyried a gwerthuso'r meysydd ffocws penodol yn drylwyr drwy'r dull amrywiol o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r broses gyfan. Dylid nodi tystiolaeth o waith ymchwil a darllen a ddewiswyd yn glir.

Ar y cyfan, nodwyd y maes ffocws a ddewiswyd yn glir ym mharagraff cyntaf yr ymchwiliad ac yn aml roedd ymgeiswyr yn gallu rhoi eglurder am y rhesymau dros eu dewis, sy'n aml yn seiliedig ar brofiadau personol a'r awydd i ddysgu mwy yn ystod eu gwaith ymchwil. Ar y cyfan, dewisodd ymgeiswyr nifer bach a hylaw o feysydd ffocws fel rhan o'u hymchwil ac roeddent yn gallu trafod yn glir y rhesymau dros eu dewis a'r elfennau roeddent yn dymuno dysgu amdanynt drwy ymchwiliad trylwyr o'r meysydd ffocws. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu darparu syniadau cytbwys ar gyfer ymchwil pellach. Dewisodd rhai ymgeiswyr feysydd ffocws a oedd yn dechrau cwmpasu ffocws yr ymchwiliad cyfan ac weithiau cafodd cwestiwn y testun a ddewiswyd ei anghofio yng nghyflwyniad yr ymchwiliad.

Byddai meysydd i'w gwella yn cynnwys y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y ffynonellau a ddefnyddiwyd. Ar y cyfan, cyflwynodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi eu hymchwil, er na chafwyd llawer o enghreifftiau i esbonio pam y cawsant eu dewis i gefnogi eu hymchwiliad. Aeth rhai ymgeiswyr ati i greu cysylltiadau â deddfwriaeth benodol, llyfrau a gwefannau penodol gan esbonio gwerth y ffynonellau yn y maes hwn i'w hymchwiliad, gan roi trosolwg clir ar gyfer yr ymchwil cyfan a fyddai'n cael ei gynnal. Eto i gyd, nid yw llawer o ymgeiswyr yn rhoi amlinelliad o'r ffynonellau a ddefnyddir fel rhan o'r ymchwiliad a'u gwerth neu defnydd, ac nid yw hyn yn cynnig ffocws ymchwil penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 2**

**Trafodwch sut mae'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth gynnwys:

- sut mae'r meysydd ffocws yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant (mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol)
- amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys eich safbwynt chi a/neu safbwyntiau pobl eraill
- enghreifftiau priodol o ddamcaniaeth a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- sut mae damcaniaeth/deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy (*traceable*) i gefnogi tystiolaeth.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o ddamcaniaeth/fframweithiau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd ffocws a chymhwyso hyn at ymarfer. Dylid ystyried pwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol yn ogystal â'u safbwynt eu hunain gan ystyried meddyliau pobl eraill, gallai hyn gynnwys lleoliad gwaith ac ymarfer a welwyd yn ystod profiad lleoliad gwaith y gellir eu defnyddio i gefnogi safbwyntiau. Dylid cynnwys damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau priodol a pherthnasol a fydd yn cefnogi'r drafodaeth. Mae angen i ymgeiswyr gynnwys defnydd effeithiol o gyfeirio perthnasol.

Mae Tasg 2 yn rhoi cyfle i ddatblygu safbwyntiau gwahanol, a oedd yn amlwg mewn amrywiaeth eang o ymchwiliadau ymgeiswyr. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu darparu amrywiaeth o bwyntiau trafod ar gyfer y dasg hon ac yn gyffredinol roeddent wedi nodi un neu ddau faes i ganolbwyntio arnynt. Mae Tasg 2 yn rhoi cyfle i fyfyrio yn gadarnhaol neu'n negyddol ar eu meysydd ffocws, a defnyddiodd yr ymgeiswyr fyfyrdodau ar eu profiadau ymarferol yn eu trafodaethau, ac ar y cyfan roedd y rhain yn canolbwyntio ar y meysydd y gwnaethant eu nodi yn nhasg 1.

Meysydd i'w gwella fyddai mwy o bwyslais ar gwestiwn y testun y mae angen iddo barhau yn drafodaeth gadarn drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y testun o'u dewis, ac ni wnaethant nodi unrhyw elfennau a oedd yn esbonio sut mae annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella'r canlyniadau i blant, ac roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y maes/meysydd ffocws a ddewiswyd yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 3**

**Gwerthuswch sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Gallai** eich tystiolaeth sôn am y canlynol:

- cyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a gweithio ar y cyd
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gymryd rhan
- cynnal hawliau plant
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw sgìl arall/sgiliau eraill fel bo'n briodol.

Mae'r tasgau hyn yn canolbwyntio ar werthuso amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion. Gellid datblygu'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei meithrin fel rhan o'r cynnwys a addysgwyd ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer. Roedd ymgeiswyr yn gallu ystyried amrywiaeth o drafodaethau yn ymwneud ag ymarfer ac yn cynnwys pwyntiau clir i fodloni'r rhestr o dystiolaeth y gellid ei chynnwys, megis pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm a sgiliau proffesiynol.

Roedd ymgeiswyr yn gallu cyflwyno trafodaethau da yn ymwneud â'r meysydd ffocws o ran sut gall amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o destun 1; sut mae annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella'r canlyniadau i blant a thestun 2; rôl ac effaith sgrinio, profi a monitro heb fod yn rheolaidd o adeg cenhedlu hyd at adeg geni. Roedd y dasg hon yn rhoi cyfle i drafod profiadau ar sail gwaith a myfyrio ar ymarfer proffesiynol, ac roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu cyflwyno trafodaethau clir a oedd yn cysylltu'n dda â gwerthoedd ac egwyddorion y meysydd ffocws o'u dewis sy'n cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi dealltwriaeth glir o'r gwerthoedd a'r egwyddorion a'u cysylltu â'r testun a'r meysydd ffocws o'u dewis. Roeddent yn gallu esbonio sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion yn cael eu defnyddio i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Gwnaethant nodi amrywiaeth o werthoedd ac egwyddorion perthnasol a chynnwys ymchwil ychwanegol a oedd yn benodol i'w meysydd ffocws. Roedd eu hymatebion yn dangos dealltwriaeth gadarn. Roedd y dasg hon yn galluogi ymgeiswyr i rannu profiadau ar sail gwaith a phrofiadau personol, gan amlygu eu gwybodaeth am yr arferion a'r sgiliau gofynnol wrth weithio gyda phlant.

Meysydd i'w gwella fyddai darparu rhagor o drafodaethau gwerthusol ar sut mae'r gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i'ch testun a'ch meysydd ffocws dewisol yn cael eu defnyddio mewn ymarfer, drwy roi barn werthusol am brofiadau ymarferol er mwyn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o'r testun a'r meysydd ffocws.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 4**

**Ystyriwch sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo’n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.**

**Rhaid** i’ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â sut mae’r damcaniaethau, y ddeddfwriaeth neu’r fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych chi wedi cael profiad ohonyn nhw.

Mae'r dasg hon yn ei gofyn i ymgeiswyr gynnwys cysylltiadau â dylanwadau damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sy'n ymwneud â Chymru (fel sy'n briodol i ffocws y testun) y gellid eu hystyried; dangos dyfnder ac ehangder dealltwriaeth gan gyfeirio at gryfderau a gwendidau mewn ymarfer. Dylid datblygu tystiolaeth i wneud cysylltiadau clir â'r lleoliad gwaith. Rhaid i ymgeiswyr drafod sut mae deddfwriaeth, fframweithiau a neu safbwyntiau damcaniaethol wedi dylanwadu ar ymarfer cyfredol ac wedi gwneud newidiadau i'r ymarfer mewn lleoliadau plant trwy ddarparu dehongliad o'u profiadau eu hunain o'r effeithiau ar ymarfer proffesiynol.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu ystyried amrywiaeth o ddamcaniaethau, deddfwriaeth, neu fframweithiau perthnasol yn ymwneud â sut mae annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio yn gallu gwella canlyniadau i blant a rôl ac effaith sgrinio, profi a monitro heb fod yn rheolaidd o adeg cenhedlu hyd at adeg geni. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu darparu lefel dda o ddealltwriaeth ac ystyried sut maent yn cysylltu ag ymarfer. Ar y cyfan, mae'r ymgeiswyr wedi darparu tystiolaeth ar gyfer myfyrio ar amrywiaeth eang o ymchwil i ystyried y damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer tasg 4. Mae'r ymgeiswyr yn aml wedi dangos dehongliad da ar sail ymchwiliad trylwyr i ddarparu cysylltiadau clir â'r ymchwil ac er mwyn bodloni’r testun a’r meysydd ffocws o’u dewis. Roedd ymgeiswyr a gyrhaeddodd y bandiau marciau uwch yn gallu cynnig eglurder o ran eu dealltwriaeth o sut mae damcaniaeth, deddfwriaeth, neu fframweithiau yn cysylltu ag ymarfer.

Meysydd i'w gwella fyddai darparu mwy o ddyfnder o ran trafodaeth yn nhasg 4, mae ymgeiswyr yn aml yn awyddus i drafod amrywiaeth eang o ddamcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau gwahanol ac nid yw hyn yn cefnogi trafodaeth gytbwys ar bob un yn unigol. At hyn, yn aml defnyddir amrywiaeth eang o gyfeiriadau yn nhasg 4 ac mae angen iddynt gael eu rhestru yn y testun yn briodol i roi tystiolaeth am y ffynonellau a ddefnyddiwyd ac yn y rhestr gyfeiriadau.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 5**

**Aseswch sut mae gwybod (*having knowledge*) am y testun rydych chi wedi'i ddewis a'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn gallu cael ei ddefnyddio i achosi newid yn y ddarpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.**

**Rhaid** i'ch tystiolaeth:

- Ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer (*practice approaches*) newydd a rhai sy'n datblygu
- Cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau o fewn y sector
- Llunio barn sy'n cysylltu ymarfer â damcaniaeth (ffocws y testun, damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig)
- awgrymu newidiadau yn y dyfodol y byddai'n bosibl eu mabwysiadu mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**Rhaid** i'r dystiolaeth gyfeirio at ymchwil sydd wedi'i wneud a **rhaid** i'r dystiolaeth sôn am brofiadau mewn ymarfer.

Mae'r dasg hon yn edrych tuag at newidiadau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ymchwil a dealltwriaeth yr ymgeisydd o'u testun dewisol a'u meysydd ffocws. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ystyried y wybodaeth y maent wedi'i hennill trwy ymchwilio i'w testun a'u meysydd ffocws cysylltiedig ac asesu sut gellir defnyddio'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig i sicrhau newid mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu datblygu trafodaethau cadarnhaol am syniadau i'r dyfodol ar gyfer cynnydd neu addasiadau y gellir eu gwella neu a fyddai er budd angen gorau plant.

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i Dasg 5 gan fod yr ymgeiswyr wedi cyflwyno trafodaethau cadarn yn ymwneud â'u hymarfer proffesiynol a'u profiadau damcaniaethol i fynegi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddeddfwriaeth, fframweithiau, neu safbwyntiau damcaniaethol newydd. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi eu barn ar ymarfer a damcaniaeth drwy gynnig awgrymiadau, syniadau a/neu farn a rannwyd mewn ffordd broffesiynol ac aeddfed i drafod cynnydd dulliau newydd a dulliau sy'n datblygu. Ar y cyfan, roedd ymgeiswyr yn gallu darparu trafodaethau gwerthfawr yn ymwneud ag annog newid cadarnhaol drwy wahaniaethu a myfyrio a sut mae ymarfer newydd a dulliau sy'n datblygu yn gallu gwella canlyniadau i blant a rôl ac effaith sgrinio, profi a monitro heb fod yn rheolaidd o adeg cenhedlu hyd at adeg geni a datblygu syniadau o annog canlyniadau cadarnhaol sy'n benodol i'r maes hwn o ofal iechyd.

Meysydd i'w gwella fyddai cynnwys rhagor o drafodaethau ar fanteision newidiadau newydd ac yn y dyfodol gan fod ymgeiswyr yn aml yn asesu newidiadau cyfredol neu newidiadau sydd wedi'u sefydlu'n barod. Gallai ymgeiswyr gyflwyno rhagor o drafodaethau ar sail eu profiadau eu hunain a thrafod sut byddai'n bosibl eu datblygu ymhellach mewn lleoliadau gofal plant a gofal iechyd perthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Tasg 6**

**Trafodwch sut bydd eich ymchwil a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun yn y dyfodol.**

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- myfyrio ar werth neu fanteision yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu wrth i chi ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws
- beth hoffech chi ei wneud, ar sail eich casgliadau, i wella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at sut byddai newidiadau i'ch ymarfer eich hun yn gallu effeithio ar ymarfer pobl eraill

Mae angen i ymgeiswyr fyfyrio ar yr hyn maent wedi'i ddysgu o'r testun a'r meysydd ffocws sydd wedi'u dewis. Bydd y myfyrio hwn yn dod â'r trafodaethau a'r safbwyntiau amrywiol ynghyd drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. Bydd ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth neu fanteision yr hyn y maent wedi'i ddysgu fel rhan o ymchwilio i'w testun dewisol a'u meysydd ffocws. Gall ymgeiswyr drafod yr hyn yr hoffent ei wneud yn seiliedig ar eu canfyddiadau i'w galluogi i ddeall ymarfer yn well gyda'r nod o wella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw effaith y bydd newidiadau yn eu cael ar eu hymarfer eu hunain a'r newidiadau i ymarfer pobl eraill

Roedd yr ymgeiswyr yn gallu uniaethu mewn ffordd gadarnhaol â'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn gyffredinol ac roeddent yn gallu rhannu'n effeithiol werth y wybodaeth maent wedi'i ddysgu. Roedd ymgeiswyr yn aml yn ymateb yn glir wrth drafod manteision eu hymchwil, y gellir ei ddefnyddio i helpu a llywio eu hymarfer yn y dyfodol a chefnogi ymarfer pobl eraill. Mae'r dasg yn nodi y dylai ymgeiswyr gyflwyno trafodaeth yn ymwneud â chanfyddiadau'r ymchwiliadau a'r hyn maent wedi'i ddysgu a sut bydd eu hymchwil a'r hyn maent wedi'i ddysgu yn cefnogi eu hymarfer unigol yn y dyfodol. Cafwyd ymateb da iawn i'r dasg hon ac ar y cyfan roedd yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ennill marciau uchel drwy gyflwyno trafodaeth drylwyr a oedd yn ymdrin â'r meysydd tystiolaeth angenrheidiol. Roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi eu dealltwriaeth a'r wybodaeth a gafwyd drwy'r ymchwil i'r ymchwiliad, ac roeddent yn gallu rhoi tystiolaeth i fodloni meini prawf y disgwyliadau a chynnig eglurder a chysondeb yn y trafodaethau cloi.

Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn gallu mynegi dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent wedi'i ddysgu ar sail yr holl waith ymchwil a myfyrio ar y sgiliau a enillwyd drwy gwblhau ymchwiliad â ffocws. Roedd ymgeiswyr yn aml yn gallu trafod pwysigrwydd defnyddio'r hyn maent wedi'i ddysgu a'r ymchwil newydd hwn yn y dyfodol a'i gysylltu â'u meysydd testun dewisol gydag effaith gadarnhaol ar ymarfer.

Meysydd i'w gwella fyddai bod ymgeiswyr yn trafod yn glir werth a manteision yr hyn maent wedi'i ddysgu drwy gydol yr holl ymchwiliad a sut bydd y wybodaeth newydd yn helpu i'w cefnogi yn y dyfodol fel gweithwyr proffesiynol yn eu hymarfer yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Ltd.

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02920 404264
E-bost: GChDDP@cbac.co.uk
Tudalen we'r cymhwyster: Cymwysterau | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda phrofiad o 70 mlynedd a mwy, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.